Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 340 – 16 Rhagfyr 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod xxx

Nodwyd bod y cofnodion i ddilyn.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Oherwydd salwch nid oedd adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd AEO ei adroddiad.

Cyfarfod DCMS/BBC/S4C

Adroddodd AEO yn ôl i'r Awdurdod ar y cyfarfod cyntaf gyda'r DCMS a'r BBC. Cadarnhawyd y bydd cyfarfodydd teir-ran lle bydd y DCMS yn bresennol ym mhob cyfarfod. Cynhelir cyfarfodydd llai o gwmpas y prif gyfarfodydd i drafod manylion. Roedd S4C wedi cychwyn ar y gwaith o baratoi Cynllun i gyflwyno i'r trafodaethau ym mis Ionawr.

Adolygiad Mewnol

Eglurodd AEO fod yr adolygiad mewnol wedi dechrau gyda grwpiau yn edrych ar "Gomisiynu", "Effeithiolrwydd a Newyddbeth" a'r ochr olygyddol.

4. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys

Adroddodd CE o'r Pwyllgor Cynnwys. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2011 i'r Awdurdod ym mis Ionawr.

5. Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda'r BBC

Arweiniodd EM yr aelodau drwy'r cytundeb. Cymeradwyodd yr Awdurdod y cytundeb gan roi awdurdod i'r swyddogion gytuno ar fân newidiadau terfynol.

6. Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol 2011

Cymeradwyodd yr Awdurdod gyhoeddi'r Cynllun.

7. Amrywiaeth

Cyfeiriodd DWG at brif weithgareddau ar gyfer 2011 gan nodi'r angen i'r Awdurdod ystyried dulliau er mwyn ymchwilio ac asesu'r effaith ar wasanaethau a chynnwys S4C yng nghyd-destun yr Ymrwymiad i Amrywiaeth.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Materion personél
- Criteria Darllediadau'r Etholiad a'r Refferendwm
- Adroddiad Cyllid
- Cyflwyniad Cyfathrebu
- Adroddiad Gwifren